Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
—
Welsh Parliament
Finance Committee

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

25 Tachwedd 2022

Annwyl Mark

Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennaf atoch i dynnu eich sylw at adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei waith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn ystod y gwaith craffu, gwnaethom ystyried yr oedi sylweddol wrth osod Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

Yn ei dystiolaeth, eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am yr oedi drwy eich Pwyllgor. Dywedodd hefyd y byddai'n croesawu cael eglurhad o'r disgwyliadau a osodir arno gan yr Aelodau, pe na bai'n gallu bodloni'r terfyn amser statudol o bedwar mis ar gyfer cwblhau archwiliad o gyfrifon yn y dyfodol.

Gan mai'r Pwyllgor Cyllid sy'n gyfrifol am oruchwylio trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru a swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol, credwn ei bod yn bwysig ein bod yn cael ein hysbysu'n uniongyrchol am achosion o'r fath. Felly, heb ragfarn i waith eich Pwyllgor, rydym wedi gwneud yr argymhelliad a ganlyn:

> **Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, os na all gwblhau archwiliad o fewn y terfyn amser statudol o bedwar mis.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565